# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 30 Gorffennaf 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o debygolrwydd cyrraedd targed adeiladu 6,500 o gartrefi newydd? (WAQ52298)

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Mae cytundeb Cymru'n Un yn rhoi ymrwymiad i ddarparu o leiaf 6,500 o dai fforddiadwy dros dymor pedair blynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwch yn ymwybodol bod Swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Dai, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio a'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn y broses o sefydlu system fonitro gadarn i gyfrif cartrefi fforddiadwy yng Nghymru yn gywir. Nid oedd y system hon yn bodoli'n flaenorol. Rwyf wedi gohebu â chi ar y mater hwn fwy nag unwaith.

Wrth gwrs, gwnaed gwaith pan gynhwyswyd y targed o 6,500 yng Nghytundeb Cymru'n Un. Cafwyd cyfanswm o 1086 o unedau tai fforddiadwy drwy'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yn 2006-07 felly nid yw cyfanswm o 6,500 o unedau dros bedair blynedd i'w weld yn afresymol o ystyried y tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir gan gymdeithasau Tai heb Grant Tai Cymdeithasol, fel arfer drwy'r system Gynllunio a threfniadau Adran 106.
Rhaid ystyried effeithiau'r wasgfa gredyd, benthyciadau drutach a'r dirywiad yn y farchnad dai, ac am y rheswm hwn mae'n bosibl na allwn gyflawni'r lefelau uchaf o dai fforddiadwy a obeithiwyd amdanynt yn wreiddiol. Fodd bynnag, rydym wedi cyflwyno camau i fynd i'r afael â rhai o effeithiau'r wasgfa gredyd, er enghraifft y pecyn achub morgais.

Rydym yn asesu'r tebygolrwydd o gyflawni'r 6,500 o gartrefi fforddiadwy gan nad yw'r farchnad dai yn llonydd. Mae'r gwaith o sefydlu gweithdrefnau monitro cyflawn i fesur nifer y cartrefi fforddiadwy newydd ac effaith y wasgfa gredyd a'r dirywiad yn y farchnad dai yn parhau. Mae Uned Ymchwil Economaidd Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd wedi'i defnyddio gan Gartrefi Cymunedol Cymru i gasglu data ar ystadegau tai fforddiadwy yn ystod y flwyddyn 07-08 mewn partneriaeth â chymdeithasau a dylai hwn fod ar gael yn yr hydref.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyhoeddi ystadegau am nifer y tai fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu bob blwyddyn? (WAQ52299)

**Jocelyn Davies:** Ar hyn o bryd, defnyddir Ystadegau Tai Cymru i gyhoeddi ystadegau tai ynghyd â nifer o fwletinau eraill mwy penodol a pharheir i gyhoeddi'r rhain. Byddwch yn ymwybodol, gan ein bod wedi gohebu'n helaeth ynghylch hyn, bod Swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Dai, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio a'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol wrthi'n adolygu'r dull o gasglu data a chyflwyno dull mwy cyflawn o gasglu data am dai fforddiadwy.

Ar hyn o bryd, cesglir data o amrywiaeth o ffynonellau at wahanol ddibenion ac er mwyn monitro targed Cymru'n Un yn fwy cywir, mae gwaith ar y gweill i ddarparu set fwy cyson a chadarn o ddata a fydd yn cwmpasu'r holl ddarpariaeth o dai fforddiadwy ychwanegol ar lefel awdurdod lleol. Mae'r gwaith hwn yn datblygu drwy is-grŵp darpariaeth tai fforddiadwy y Gweithgor Technegol ar gyfer Tai a adolygodd y sefyllfa o ran cyfrif a monitro ffigurau tai fforddiadwy a phenderfynodd mai'r dull mwyaf cynhwysfawr yw cyflwyno dull casglu data yn seiliedig ar ddull a elwir yn Atodiad Ystadegol Strategaeth Dai (HSSA).

Y nod yw casglu hwn o Ebrill 2009 ymlaen gan gynnwys ystadegau ôl-weithredol ar gyfer 2008/09. Unwaith i'r data cynhwysfawr newydd gael ei gasglu ac y gellir sicrhau ei gywirdeb, caiff ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

Cafodd Uned Ymchwil Economaidd Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd ei defnyddio gan Gartrefi Cymunedol Cymru i gasglu data ar ystadegau tai fforddiadwy yn ystod y flwyddyn 07-08 mewn partneriaeth â chymdeithasau a dylai hwn fod ar gael yn yr hydref.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud ynghylch pryd y caiff y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff ei basio? (WAQ52303)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Mae trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn parhau ac mae cynnydd yn cael ei wneud. O ystyried cwmpas y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn, mae o anghenraid yn broses hir i sicrhau ein bod yn eglur ynghylch cymhwysedd y Cynulliad. Felly ni fyddai'n briodol i roi amserlen benodol i'r broses. Fodd bynnag, byddaf yn sicrhau y caiff Aelodau'r Cynulliad eu hysbysu unwaith y byddwn wedi cytuno gyda Llywodraeth y DU ar eiriad y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i bobl sydd ag anhwylder straen wedi trawma ym Mhowys? (WAQ52295)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Ym Mhowys, caiff pobl sydd ag anhwylder straen wedi trawma eu hatgyfeirio gan y meddyg teulu a chânt eu gweld i ddechrau naill ai o fewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol neu wasanaethau eilaidd. Ceir mynediad at wasanaethau craidd ymhen rhai o wythnosau. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn y broses o ddatblygu swyddogaeth therapïau seicolegol o fewn y gyfarwyddiaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu i sicrhau mwy o hyblygrwydd o ran darpariaeth ar draws grwpiau proffesiynol seicoleg, therapïau seicolegol ac arbenigwyr nyrsio clinigol.

Mae amrywiaeth o ymyriadau ar gyfer unigolion sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma a ddarperir o fewn y gwasanaethau gofal eilaidd craidd ac maent ar gael drwy atgyfeiriad gan feddyg teulu. Y driniaeth a ddewisir gan nifer yw therapïau seicolegol, therapi ymddygiad gwybyddol yn canolbwyntio ar drawma neu ddisensiteiddio ac ailbrosesu symudiad y llygad yn bennaf; mae nifer o seicolegwyr yn y rhanbarth wedi hyfforddi yn y meysydd hyn a gellir eu darparu mewn lleoliadau gofal sylfaenol ac eilaidd.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith debygol yr arbedion gofynnol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans ar amseroedd ymateb yng Nghymru wledig? (WAQ52308)

**Edwina Hart:** Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth wneud yr arbedion ariannol gan sicrhau nad oes effaith ar amserau ymateb yng Nghymru.